OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 3252 (Cy.245)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Rheoliadau Symud Ymaith a Gwaredu Cerbydau (Diwygio) (Cymru) 2005

Wedi'u gwneud - -	*23 Tachwedd 2005*
Yn dod i rym - -	*25 Tachwedd 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol"), drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 3 a 4 o Ddeddf (Amwynder) Gwaredu Gwastraff 1978(**1**) ac adrannau 99 a 101 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**2**) ac sydd bellach yn arferadwy gan y Cynulliad Cenedlaethol(**3**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Symud Ymaith a Gwaredu Cerbydau (Diwygio) (Cymru) 2005 a deuant i rym ar 25 Tachwedd 2005.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran y rhannau o Gymru a ganlyn—

(a) y rhan honno o draffordd yr M4 yng Nghymru sy'n cynnwys "the New Toll Plaza area" a "the New Bridge" fel y'u diffinnir yn adran 39(1) o Ddeddf Pontydd Hafren 1992(**4**); neu

(b) y rhan honno o'r ffordd a adeiladwyd gan y Gweinidog Trafnidiaeth ar hyd y llinell a ddisgrifir yn Atodlen 1 o Orchymyn Cefnffordd North Almondsbury-South of Haysgate 1947(**5**) ac y cyfeirir ati yn y Gorchymyn hwnnw fel "the new road" sy'n gorwedd i'r dwyrain o'r pwynt mwyaf dwyreiniol cyn cyrraedd Afon Gwy lle gall traffig Dosbarthiadau I a II fel y'i pennir yn Atodlen 4 i Ddeddf Priffyrdd 1980(**6**) adael y ffordd honno ar hyd ffordd arbennig arall.

(**1**) 1978 p.3. *Gweler* adran 11(1) i gael y diffiniad o "prescribed".
(**2**) 1984 p.27. *Gweler* adran 142(1) i gael y diffiniad o "prescribed".
(**3**) Cafodd swyddogaethau yr Ysgrifennydd Gwladol dan adrannau 3 a 4 o Ddeddf (Amwynder) Gwaredu Gwastraff 1978 eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1. Cafodd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol dan adrannau 99 a 101 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2004, O.S. 2004/3044, erthygl 2 ac Atodlen 1.
(**4**) 1992 p.3.
(**5**) O.S. 1947/1562.
(**6**) 1980 p.66.